OS AM FARGEN.

Yn y Siop Ail-Law ceir bargenion ac offer ar gyfer y tŷ
neu lyfr am bris rhâd;
'Hen bethau!' medd Nhad
ond '*Defnyddiol tu hwnt.'* medda fi.
Ceir yno gadeiriau mewn derw neu dap ar gaset neu CD;
llond bocsys o ffyrc, poteli heb gyrc
neu falf olwyn ôl JCB.

Gyda lwc, fe gewch yno fargian fel caead i depot Wedge Wood
neu lafn i li' gron
a phlât i ddal sgon
a wellin'tons i stompio mewn mwd
Pen carw wedi'i stwffio i'w hongian, llun Caergybi gan Kyffin 'r hen ŵr
neu fwclis mewn plastig
clust dlysau ffantastig,
'high heels', 'fish net' teits a chôt ffwr.

Ac unwaith, 'mond unwaith, 'rwy'n cofio cael bargen yn Siop yr Ail Law-
un faneg o ledr
o groen rhyw hen neidr,
fel newydd, heb sbotyn o faw!
Ac meddai y Siopwr yn dalog, *'Napoleon ein hun o'dd bia' hon;*
a'r rheswm 'i bod hi
fel newydd byth, ydy
iddo'i chuddio'n ei gôt, dan ei fron.'

'Fe wyddost yn iawn yr hen hanes amdano yn Waterloo bell,
a'i stumog yn brifo
a fynta yn cwyno
nad oedd ffisig yn ei wneud o ddim gwell!
Dim ond gwres sy'n gallu esmwytho poen bol ar faes gwaedlyd y gad.
Â'i law yn ei fogel,
y faneg oedd ddiogel-
Dyna pam 'dwi'n ei gwerthu mor rad!'

Dwi 'di meddwl sawl tro ar ôl hynny, a chwilio yn ddyfal a wnaf
a welaf i tybed
goes pren heb dwll pryfed.
Hefo honno, byddai bywyd yn braf,
a'm ffortiwn a fyddwn yn arbed a fyddwn i byth yn fy ngholled.
Byddai un esgid râd
yn rhoi imi fwynhad
pe bawn i ryw dro'n methu cerdded!

gan J. Richard Williams